

Rhif: WG35863



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion

Gweithredu fframwaith rheoleiddio newydd

Tachwedd 2018

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

WG34310 – Gweithredu cam 3 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 – Lleoli Oedolion

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 24 Mai 2018 a daeth i ben ar 16 Awst 2018. Cafwyd 24 o ymatebion gan amryw o randdeiliaid a charfanau a chanddynt fuddiant.

Y Camau Angenrheidiol

Er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

I wneud ymholiadau am y ddogfen hon cysylltwch â:

Cangen Gweithredu Deddfwriaeth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: RISCAct2016@llyw.cymru

Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://beta.llyw.cymru/rheoliadau-gwasanaethau-lleoli-oedolion>

Mae fersiynau print bras, Braille ac ieithoedd gwahanol o'r ddogfen hon ar gael.

Cynnwys

Tudalen

Adran 1

1.1 Cyflwyniad	4
1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid	5
1.3 Yr ymgynghoriad hwn	6
1.4 Digwyddiadau ymgynghori	6
1.5 Y camau nesaf	6

Adran 2

2.1 Crynodeb o'r ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru	7 - 23
2.2 Cwestiynau ychwanegol	24 - 26

Atodiadau

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr	27
----------------------------------	----

Adran 1

1.1 Cyflwyniad

Derbyniodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016¹ ('Deddf 2016') Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n nodi'r fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac mae hefyd yn diwygio rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae felly'n disodli systemau perthnasol a sefydlwyd o'r blaen o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000².

Mae Deddf 2016 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi ar waith nifer o eitemau o is-ddeddfwriaeth drwy wneud rheoliadau, ynghyd â chyhoeddi canllawiau statudol a chyhoeddi codau ymarfer. Mae sylwedd y gwaith yn cael ei roi ar waith fesul tri chyfnod sy'n gorgyffwrdd:

- Roedd **Cyfnod 1 (2016/17)** yn cynnwys rheoliadau mewn perthynas â'r system newydd o reoleiddio'r gweithlu a oedd yn ofynnol o dan Ddeddf 2016. Daeth y rhain i rym ar 3 Ebrill 2017. Yn ogystal â'r rhain, datblygodd Gofal Cymdeithasol Cymru reolau a gweithdrefnau sy'n rheoli'r broses o gofrestru a rheoleiddio'r gweithlu.
- **Cyfnod 2 (2017/18)** pan sefydlwyd systemau newydd ar gyfer cofrestru gwasanaethau rheoleiddiedig a weithredwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru o Ebrill 2018. Roedd y cyfnod hwn hefyd yn cynnwys rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â'r gofynion a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas â chartrefi gofal (yn cynnwys cartrefi plant), llety diogel ar gyfer plant, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth cartref. Daeth y rhain i rym ar 2 Ebrill 2018.

Mae dolenni ar gael i holl reoliadau a chanllawiau cyfnod 1 a chyfnod 2 drwy Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru³.

- **Cyfnod 3 (2018/19)** yw'r cyfnod presennol ac mae'n cynnwys datblygu rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas â'r gofynion a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol mewn perthynas ag asiantaethau mabwysiadu, asiantaethau maethu annibynnol, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eirioli. Bwriedir i'r rhain ddod i rym ym mis Ebrill 2019.

¹ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/pdfs/anaw_20160002_we.pdf

² http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/14/pdfs/ukpga_20000014_en.pdf

³ <https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-rhagc-rheoliadau>

1.2 Y cyd-destun ar gyfer newid

Rheoleiddio gwasanaethau o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000

Mae llawer wedi ei gyflawni gan y rheoleiddwyr (Arolygiaeth Gofal Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru⁴), a'r sector gofal cymdeithasol ehangach, wrth fynd ati i wireddu'r uchelgeisiau a nodwyd yn Neddf Safonau Gofal 2000. Roedd y fframwaith hwn yn darparu safonau sylfaenol, ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth ac i'r gweithlu sy'n eu darparu, ac mae'n ddiamheuol wedi gwella gwarchodaeth i'r cyhoedd. Hefyd, mae wedi rhoi llawer mwy o gysondeb, gwarchodaeth rhag camdriniaeth a chamfanteisio, a mwy o sylw i arferion nad ydynt yn cyrraedd y safon. Gyda'n gilydd rydym wedi llwyddo i wella perfformiad ac rydym yn parhau i ddefnyddio rheoleiddio ac arolygu i gael gwared ar safonau gwael.

Fodd bynnag, ers hynny, rydym yn cydnabod bod llawer o bethau wedi newid yn y sector ac o gwmpas y sector, ac rydym wedi cydnabod yr angen i sicrhau bod ein trefniadau rheoleiddio'n gyfredol a'r angen i gynorthwyo darpariaeth gwasanaethau cynaliadwy.

Mae diwygio'r system reoleiddio, a ysgogir yn bennaf drwy Ddeddf 2016, yn seiliedig ar bum egwyddor allweddol.

- ymatebolrwydd i'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014⁵ ('Deddf 2014')
- sicrhau bod dinasyddion wrth galon gofal a chymorth
- datblygu dull Cymreig cydlynol a chyson
- taclo methiannau darparwyr
- ymatebolrwydd i fodelau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon newydd am ansawdd gwasanaethau gofal a chymorth.

Rheoleiddio gwasanaethau lleoli oedolion

Diffinnir gwasanaethau lleoli oedolion yn Atodlen 1 o Ddeddf 2016 fel: '...gwasanaeth a ddarperir (er elw neu beidio) gan awdurdod lleol neu unigolyn arall at ddibenion lleoli oedolion gydag unigolyn yng Nghymru o dan gytundeb gofal (ac mae'n cynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer recriwtio, hyfforddi a goruchwyllo'r cyfryw unigolion)'. Mae 'Cytundeb gofalwr' yn golygu cytundeb gan unigolyn i ddarparu llety yng nghartref yr unigolyn ynghyd â gofal a chymorth i hyd at dri oedolyn.

Y rheoliadau presennol sy'n cwmpasu Cynlluniau Lleoli Oedolion yng Nghymru yw Rheoliadau Cynlluniau Lleol Oedolion (Cymru) 2004⁶ a Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2010⁷, a luniwyd o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Bydd y Rheoliadau newydd yn gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau lleoli oedolion awdurdodau lleol ac annibynnol (a'u hunigolion cyfrifol) o dan adrannau 27 a 28 o Ddeddf 2016.

⁴ Arolygiaeth Gofal Cymru (hyd at Ionawr 2019) oedd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Gofal Cymdeithasol Cymru (hyd at Ebrill 2016) oedd Cyngor Gofal Cymru.

⁵ http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf

⁶

⁷ <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1756/contents/made/welsh>

1.3 Yr ymgynghoriad hwn

Roedd yr ymgynghoriad hwn, a gynhaliwyd rhwng 24 Mai ac 16 Awst 2018, yn gofyn am safbwyntiau ar Reoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) 2019 ('y Rheoliadau drafft') sydd yn gwyno:

- yn rhoi gofynion newydd ar ddarparwyr gwasanaethau wedi'u rheoleiddio (o dan adran 27 o Ddeddf 2016);
- yn gosod gofynion ar unigolion cyfrifol penodedig (o dan adran 28 o Ddeddf 2016).

Ymgynghorwyd hefyd ar y canllawiau statudol drafft ar gyfer darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol o ran bodloni'r safonau rheoleiddio ac, mewn egwyddor, reoleiddio gwasanaethau lleoli ar gyfer rhai 16 i 17 oed yn y dyfodol.

Cafwyd 24 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd tri o'r rhain yn rhai naratif yn unig ac felly fe'u nodir yn y crynodeb o'r ymatebion ticio blychau yn yr adroddiad hwn fel 'heb ei nodi'. Rhoddwyd yr un ystyriaeth i bob ymateb o ran y sylwadau a ddaeth i law. Atodir rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Ceir crynodeb o'r ymatebion, ynghyd â dadansoddiad a chasgliadau Llywodraeth Cymru, yn Adran 2.

1.4 Digwyddiadau Ymgynghori

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori yn ystod y broses ymgynghori. Bwriad y digwyddiadau hyn oedd annog rhanddeiliaid i ymateb a galluogi'r rhai a ddaeth i'r digwyddiadau:

- i gael darlun cyffredinol o'r fframwaith deddfwriaethol drafft a'r newidiadau allweddol a ddaw yn ei sgil;
- gwneud yn siŵr eu bod yn deall y cynigion a gofyn am eglurhad os oes angen hynny;
- ystyried y goblygiadau posib i'w swydd a'u sefydliad.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf ar 16 Gorffennaf ym Mhrifysgol Glyndŵr yn Wrecsam, a'r ail ar 19 Gorffennaf yng Ngerddi Soffia, Caerdydd.

At ei gilydd, roedd nifer y bobl a ddaeth i'r digwyddiadau – gan gynnwys ymgynghoriadau ar leoli oedolion, eiriolaeth a gwasanaethau maethu – yn gadarnhaol. Roedd cyfanswm o tua 90 o bobl yng Nghaerdydd a 40 yn Wrecsam. Roedd yno gynrychiolaeth o ystod o sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, gan gynnwys nifer o ddarparwyr gwasanaethau.

1.5 Y camau nesaf

Cyflwynir y Rheoliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Rhagfyr 2018 a bwriedir cynnal dadl arnynt ym mis Ionawr 2019. Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn eu cymeradwyo, disgwylir iddynt ddod i rym ym mis Ebrill 2019.

Adran 2

Crynodeb o ymatebion a gafwyd ac ymateb Llywodraeth Cymru

Noder: Gan fod rhai canrannau wedi cael eu talgrynnu ni fyddant bob amser yn rhoi cyfanswm o 100%.

RHAN 2: Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau

Cwestiwn 1: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
11	7	3	0	3
46%	29%	13%	0%	13%

Crynodeb o'r ymatebion a'r camau gweithredu

Roedd dros hanner y rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno'n llwyr fod y gofynion cyffredinol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion yn briodol.

Roedd Gyrfa Cymru'n tueddu i anghytuno ar y gofynion hyn (a'r rhai yn Rhannau 3-8, 11, 12-16) am eu bod o'r farn y dylai fod mwy o gyfeiriadau at ofalwyr teuluol di-dâl ac y dylid gwneud newidiadau i sicrhau nad oes dryswch rhwng hynny a gofalwyr lleoliad oedolion. Awgrymodd Gofalwyr Cymru y dylid newid y term 'gofalwr lleoliad oedolyn' yn 'gweithiwr gofal lleoliad oedolyn' ac y dylid newid 'cytundeb gofalwr' yn 'cytundeb gofalwr lleoliad oedolyn'. Ni chredir bod angen gwneud hynny gan fod cyd-destun y Rheoliadau'n ei gwneud yn glir at bwy y cyfeirir. Roedd Gofalwyr Cymru hefyd am i'r term 'cynrychiolydd' gael ei newid yn 'gofalwr / cynrychiolydd'. Ni chredir bod angen gwneud hynny chwaith oherwydd gall 'cynrychiolydd' yn rhesymol gynnwys 'gofalwr'.

Roedd yr ymateb 'tueddu i anghytuno' olaf yn seiliedig ar y ffaith bod y Rheoliadau drafft yn cyfeirio at 'ddarparwyr gwasanaethau annibynnol'. Nid dyna fel y mae hi – mae'r term cyffredinol 'darparwr gwasanaeth' yn cael ei ddefnyddio drwy gydol y Rheoliadau a'r canllawiau statudol.

Roedd nifer o alwadau i newid yr iaith yn y Rheoliadau yn ogystal â'r canllawiau statudol i adlewyrchu natur lleoliadau oedolion. Teimlid nad yw'n fater o 'leoli' oedolion yn unig, ac y dylai'r iaith adlewyrchu'r elfen o ddewis gan unigolion ynghylch gyda pha deulu maent yn byw a'r prosesau cydweddu y mae angen eu cyflawni i sicrhau bod y trefniant yn llwyddiannus. Yn benodol, cafwyd llawer o sylwadau'n gofyn am gynnwys 'Cysylltu bywydau' yn y teitl yn hytrach na 'gwasanaethau lleoli oedolion' i adlewyrchu'r ffaith mai dyma'r term a ddefnyddir yn eang i ddisgrifio trefniadau o'r fath ledled Cymru a'r DU. Gofynnodd un llais, oedd â barn wahanol, i'r term hwn beidio â chael ei ddefnyddio am nad yw'n un a ddefnyddir gan bawb. Fel yr oedd llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod, ni fyddai modd i Lywodraeth Cymru symud oddi wrth y term 'gwasanaethau lleoli oedolion' ar hyn o bryd oherwydd ni fyddai hynny'n gyson â'r diffiniad a nodir yn Neddff Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Byddai cyflwyno term arall yn awr yn peri anghysondebau cyfreithiol. Er hynny, lle y bo hynny'n bosib, mae'r Rheoliadau a'r canllawiau statudol wedi eu diwygio i gyfeirio at 'gydweddu' a 'chydwedoldeb' yn hytrach

na dim ond 'lleoli', ond gan sicrhau ar yr un pryd y cyfeirir at y weithred lle mae'r unigolyn yn symud i lety fel 'lleoli' er mwyn osgoi unrhyw gamddechongli o ddefnyddio gair fel 'cydweddu', er enghraifft, oherwydd gallai rhywun gael ei gydweddu ond heb symud i'r llety yn y pen draw.

Roedd ambell i alwad am fwy o fanylion yn y canllawiau statudol ynghylch cynnwys y Datganiad o Ddiben. Ni chredir bod hynny'n angenrheidiol oherwydd ceir cyfeiriad at ganllawiau manwl penodol gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a dolen i'r canllawiau hynny⁸. Roedd un o'r ymatebwyr o'r farn y gellid cynnwys y geiriau yn y canllawiau statudol⁹ ynghylch Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017¹⁰ ("Rheoliadau 2017"). Mae'r canllawiau statudol yn cynnwys cyfeiriad at y Rheoliadau Cofrestru a chanllawiau Arolygiaeth Gofal Cymru ar gofrestru. Nid oes gwerth i ychwanegu rhagor o fanylion yn y canllawiau statudol.

Teimlid bod angen mwy o eglurder ynghylch a oes angen Datganiad o Ddiben ar gyfer pob un o safleoedd y darparwr. Mae'r canllawiau statudol wedi'u diwygio i egluro nad oes angen hynny.

Roedd rhai o'r farn ei bod yn rhy feichus adolygu'r Datganiad o Ddiben yn flynyddol, fel y nodir yn y canllawiau. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hynny'n gymesur ac mae'n nodi bod y canllawiau'n dweud mai dim ond adolygu'r Datganiad o Ddiben yn flynyddol y mae angen ei wneud, ac efallai na fyddai hynny'n gofyn am newidiadau. Yn ymarferol, lle y bo gwasanaeth wedi ymsefydlu ac yn sefydlog, mae'n debyg y gallai'r adolygiad fod yn un gweddol ysgafn ei gyffyrddiad. Roedd un o'r ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys y canllawiau statudol ar gyfer Rheoliadau 2017, o ran hysbysu rheoleiddiwr y gwasanaeth os oes angen diwygio'r Datganiad o Ddiben ar fyrder, yn y Rheoliadau hyn hefyd. Mae hyn wedi'i ychwanegu.

Dywedodd rhai y dylid diwygio'r amserlenni ar gyfer darparu gwybodaeth drwy ychwanegu 'yn ddi-oed' i'r gofyniad. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ychwanegu'r geiriau hyn gan nad oedd o'r farn eu bod yn ychwanegu dim o safbwynt cyfreithiol. Nid oedd o'r farn chwaith ei bod yn briodol pennu amserlen benodol oherwydd y byddai hynny'n groes i'r cyfeiriad polisi ar hyn o bryd o ymdrin ag achosion unigol mewn modd mwy cyfannol ac ymddiried mewn cyrff i weithredu yn y modd cywir o ran anghenion penodedig unigolion a'r canlyniadau a fwriedir.

Cafwyd un cais i gael gwared ar y geiriau 'yn anghyson â llesiant yr unigolyn' yn y Rheoliadau, gan na allai'r ymatebydd feddwl am enghraifft lle y byddai hynny'n digwydd. Nid yw hyn wedi'i newid oherwydd bwriedir i'r geiriau hyn gynnig mwy o amddiffyniad i unigolion a byddai'n creu anghysondeb â rheoliadau ar gyfer gwasanaethau eraill o dan Ddeddf 2016.

Newidiwyd rhywfaint o'r geiriad yn y canllawiau statudol ar gyfer y Rhan hon yn sgil sylwadau eu bod yn awgrymu ei bod yn ofynnol cofrestru holl staff y darparwr gwasanaeth, pan nad felly y mae hi.

Roedd un o'r ymatebwyr o'r farn bod geiriad y canllawiau statudol yn awgrymu mai dim ond gyda golwg ar y ddyletswydd i fod yn onest y dylid cymryd camau yn erbyn bwlio, erlid a /

⁸ <https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-12/181205-canllawiau-ar-gyfer-llunio-datganiad-o-ddiben-cy.pdf>

⁹ <https://gov.wales/docs/dhss/publications/180201-statutory-guidance-cy.pdf>

¹⁰ http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/1264/pdfs/wsi_20171264_mi.pdf

neu aflonyddu ac y dylid ehangu hynny. Gan fod hyn yn cyfeirio'n bennaf at aelodau o'r bwrdd, unigolion cyfrifol a staff, ni fyddai'n briodol ei ehangu ymhellach oherwydd byddai hynny'n crwydro i faes deddfwriaeth cyflogaeth. Mae mesurau diogelu digonol mewn rhannau eraill o'r Rheoliadau drafft i ddiogelu unigolion sy'n cael eu lleoli mewn gwasanaethau.

RHAN 3: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd cyn cytuno i ddarparu gofal a chymorth

Cwestiwn 2: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
11	8	2	0	3
46%	33%	8%	0%	13%

Crynodeb o'r ymatebion a'r camau gweithredu

Fel yr esboniwyd ynghylch Rhan 2, mae cysyniadau cydweddu a chydwedoldeb wedi'u hychwanegu at y Rheoliadau a'r canllawiau statudol lle y bo modd yn sgil sawl sylw ar yr agwedd hon.

Ychwanegwyd rhagor o ganllawiau statudol ar broses fesul cam ar gyfer llunio cynlluniau personol mewn argyfwng er mwyn ymateb i bryderon y gallai'r rhain fod dan fygythiad pe bai pwysau amser yn golygu na fyddai digon o amser i baratoi cynlluniau personol.

Roedd un o'r ymatebwyr am i Gynlluniau Gofal Ymlaen Llaw i unigolion â salwch angheuol gael eu hystyried yn eu cynlluniau personol. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod hynny'n angenrheidiol gan ei fod yn rhy benodol a bod y gofynion i ystyried anghenion personol a llesiant yr unigolyn yn ddigonol i ymdrin â'r agwedd hon.

Roedd galwadau pellach i osod amserlen ar gyfer rhai o'r prosesau. Nid yw hynny wedi'i ychwanegu am y rhesymau a nodwyd eisoes yn Rhan 2.

RHAN 4: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y camau sydd i'w cymryd wrth gychwyn darparu gofal a chymorth

Cwestiwn 3: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
7	12	2	0	3
29%	50%	8%	0%	13%

Crynodeb o'r ymatebion a'r camau gweithredu

Dyweddodd ambell ymatebydd fod rheidrwydd i adolygu'r cynlluniau personol bob tri mis yn ormod, yn enwedig pan fo lleoliadau wedi ymsefydlu. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol adolygu'r cynlluniau personol yn rheolaidd, yn enwedig ar gyfer trefniadau newydd. Er hynny, mae'n cytuno mai dim ond adolygiadau 'ysgafn eu cyffyrddiad' y byddai eu hangen ar gyfer lleoliadau sefydlog sydd wedi ymsefydlu ac mae wedi diwygio'r canllawiau statudol yn unol â hynny.

Diwygiwyd rheoliad drafft 12(7) yn sgil un awgrym i gynnwys cyfle i gynrychiolydd wneud cais rhesymol i adolygu'r cytundeb lleoli unigol hefyd.

Mae'r canllawiau statudol wedi'u newid i egluro y byddai'r cytundeb gofalwr yn cynnwys pob unigolyn a leolir pe bai mwy nag un, gan fod rhai o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd hynny'n glir.

Dyweddodd ambell un y gellid dehongli geiriad y gofynion i gynlluniau personol nodi 'sut y bydd anghenion gofal a chymorth yr unigolyn yn cael eu diwallu o ddydd i ddydd' fel gofyniad i lunio cynllun dyddiol caeth. Nid dyna'r bwriad, ac mae'r canllawiau statudol wedi'u diwygio i egluro hynny.

Roedd galwad hefyd am ganllawiau statudol ar gyfer adegau pan fo darparwr gwasanaeth yn awyddus i ddod â'r trefniant i ben ond nad yw'n unigolyn yn awyddus i adael. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r canllawiau statudol yw'r lle gorau i'r math hwn o ganllawiau arfer da oherwydd byddai'n dibynnu i raddau helaeth ar amgylchiadau unigol a threfniadau lleol.

RHAN 5: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran y wybodaeth sydd i'w darparu i unigolion wrth gychwyn darparu gofal a chymorth

Cwestiwn 4: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
10	9	2	0	3
42%	38%	8%	0%	13%

Crynodeb o'r ymatebion a'r camau gweithredu

Diwygiwyd y canllawiau statudol i nodi y dylid cynnwys gwybodaeth ynghylch diogelu yn y rhestr a ddarperir i unigolion.

Cafwyd un cais i'r byrddau iechyd lleol ddarparu gwasanaethau cyfieithu i helpu darparwyr i lunio gwybodaeth. Ni fyddai hyn yn briodol oherwydd mae'r Rheoliadau'n gosod gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ac nid ar fyrddau iechyd lleol.

Cafwyd ceisiadau hefyd i'r canllaw ysgrifenedig fod ar gael mewn ieithoedd ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg yn ôl y galw. Mae'r canllawiau statudol yn annog hyn gan eu bod yn cyfeirio at 'iaith briodol ac iaith o ddewis' yn hytrach na'r Gymraeg neu'r Saesneg.

RHAN 6: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran safon y gofal a'r cymorth sydd i'w darparu

Cwestiwn 5: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
12	7	2	0	3
50%	29%	8%	0%	13%

Crynodeb o'r ymatebion a'r camau gweithredu

Ychydig o sylwadau a ddaeth i law ar y rhan hon.

Cafwyd un cais i gynnwys cyfeiriad yn y canllawiau statudol at y ffaith bod eiriolaeth ar gael, yn yr un modd ag ar gyfer rheoliad 19 yn Rheoliadau 2017. Mae hyn eisoes ar gael yn rheoliad drafft 16 (Gwybodaeth am y gwasanaeth).

Cwestiwn 6: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
8	11	2	0	3
33%	46%	8%	0%	13%

Crynodeb o'r ymatebion a'r camau gweithredu

Awgrymodd ambell un o'r ymatebwyr fod angen i eiriad rheoliad drafft 24 (Defnyddio rheolaeth ac ataliaeth briodol) a'r canllawiau statudol yn ei gylch nodi'n glir na fyddai angen rheolaeth ac ataliaeth bob amser ac y dylai fod yn ddewis olaf. Mae'r canllawiau statudol yn pwysleisio pwysigrwydd mynd ati mewn ffordd gadarnhaol i gynorthwyo ymddygiad yr unigolyn, sy'n gydnaws â bodloni anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a llesiant unigolion eraill y darperir gofal a chymorth iddynt. Maent hefyd yn nodi'n glir mai dim ond pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol ac yn unol â chanllawiau cenedlaethol y dylid defnyddio'r arferion hyn.

Nodwyd nad oedd rheoliad drafft 24(5) yn glir ynghylch pryd y byddai'r 24 awr ar gyfer cofnodi digwyddiad y defnyddir rheolaeth neu ataliaeth ynddo'n cychwyn. Yn ogystal, byddai'n anodd i ddarparwyr gydymffurfio â'r gofyniad pe na bai gofyniad ychwanegol ar ofalwyr i ddarparu'r wybodaeth hon iddynt. Diwygiwyd y Rheoliadau drafft i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth gofnodi digwyddiad yn syth ar ôl cael gwybod gan ofalwr lleoli oedolion a sicrhau bod polisi a gweithdrefnau ar waith i'w gwneud yn ofynnol i ofalwr lleoli oedolion roi gwybod i ddarparwr y gwasanaeth am unrhyw ddigwyddiad ymhen 24 awr ar ôl iddo ddigwydd.

Mae diffiniad newydd o 'niwed' wedi'i gynnwys yn y Rheoliadau wedi i un o'r ymatebwyr dynnu sylw at y ffaith bod y diffiniad o 'niwed' a ddefnyddiwyd o'r blaen yn anghywir gan ei fod yn ymwneud â phlant yn unig. At ddibenion y Rheoliadau hyn diffinnir 'niwed' fel 'camdriniaeth neu nam ar (a) iechyd corfforol neu iechyd meddwl, neu (b) datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol'.

RHAN 8: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau o ran staffio

Cwestiwn 7: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
12	7	2	0	3
50%	29%	8%	0%	13%

Crynodeb o'r ymatebion a'r camau gweithredu

Roedd ambell un o'r ymatebwyr o'r farn ei bod yn anghyson cynnwys gwirfoddolwyr yn yr adran staffio gan fod Rhan 1 y Rheoliadau drafft yn eu hepgor o'r diffiniad o staff. Mae cynnwys gwirfoddolwyr yn Rhan 8 yn sicrhau bod y gofynion ynghylch gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn glir ac nid yw'n creu anghysondeb cyfreithiol â gwasanaethau eraill a reoleiddir.

Cafwyd sylwadau hefyd yn dweud y dylai'r gofynion disgyblu fod yn gymwys i wirfoddolwyr. Gan fod llai o ofynion cyfreithiol ynghylch recriwtio a chadw gwirfoddolwyr, gwnaed newidiadau i'r canllawiau statudol i nodi y byddai disgwyl i ddarparwyr sicrhau bod ganddynt brosesau ar gyfer yr agweddau hyn.

Nodwyd bod angen newid rhai o'r cyfeiriadau i ganllawiau statudol Gofal Cymdeithasol Cymru gan nad oedd rhai cyfeiriadau'n briodol i staff darparwyr ac y gellid cymryd eu bod yn awgrymu ei bod yn orfodol cofrestru (fel gweithiwr gofal cymdeithasol) gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Newidiwyd y geiriad yn y canllawiau statudol yn unol â hynny.

Nodwyd bod y gofynion o ran y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn anghyson gan fod angen gwirio rhai bob blwyddyn a rhai bob tair blynedd. Nid oes angen newid y Rheoliadau gan eu bod yn adlewyrchu arferion sefydledig o ran gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac adnewyddu.

Awgrymwyd y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod staff yn dangos eu hawl i weithio yn y wlad. Ni chredir bod hynny'n angenrheidiol gan fod deddfwriaeth ledled y DU eisoes i atal pobl rhag gweithio'n anghyfreithlon. Mae'n ofynnol o dan y Rheoliadau i ddarparwyr sicrhau addasrwydd unrhyw staff a gyflogir ganddynt ac mae hyn yn cynnwys tystiolaeth ddogfennol i'w bodloni eu hunain ynghylch hunaniaeth yr unigolion dan sylw.

Roedd galwadau hefyd am fwy o ganllawiau statudol ynghylch beth i'w wneud pe byddai anghydfod rhwng yr awdurdod lleol sydd wedi comisiynu'r lleoliad a darparwr y gwasanaeth, neu pe byddai angen newid y cymorth. Mae hynny'n fwy gweithredol nag sy'n briodol i'r canllawiau statudol a byddai'n amrywio'n dibynnu ar amgylchiadau unigol. Y cytundeb lleoli oedolion fyddai'r lle gorau i ymdrin â'r agwedd hon.

Cynigiwyd y gellid cynnwys cynrychiolwyr unigolion wrth recriwtio staff darparwyr gwasanaethau ac mae hynny wedi'i gynnwys fel ystyriaeth yn y canllawiau statudol.

RHAN 9: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â gofalwyr lleoliadau oedolion

Cwestiwn 8: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion a gofalwyr lleoliadau oedolion?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
11	7	2	0	4
46%	29%	8%	0%	17%

Crynodeb o'r ymatebion a'r camau gweithredu

Cafwyd galwadau am ragor o ganllawiau ynghylch asesu a yw'r gofynion ar gyfer recriwtio gofalwyr lleoliadau oedolion yn ddigon cadarn. Er hynny, ni chredir bod angen ychwanegu at y canllawiau statudol yn hyn o beth oherwydd gellir asesu hyn drwy'r gofynion sydd eisoes ar waith a'r canllawiau ar gynlluniau personol a'r arolwg o ansawdd y gofal.

Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid defnyddio 'gweithiwr cymorth gofal lleoliad oedolion' yn hytrach na 'gofalwr lleoliad oedolion' drwy gydol y Rheoliadau er mwyn sicrhau nad oes dryswch rhwng hyn a 'gofalwr' ac er mwyn cyd-fynd yn well â'r geiriad yn Neddf 2016 ynghylch y rôl. Ni chredir bod y newid a awgrymwyd yn briodol oherwydd y byddai'n gwneud geiriad y Rheoliadau'n fwy trafferthus. Hefyd, nid yw'r term a awgrymwyd yn ymddangos yn briodol gan ei fod yn rhoi argraff o amgylchedd gweithio yn hytrach na theulu / cartref. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y rheoliadau yn y Rhan hon yn ddigon clir ac nad oes angen eu newid.

RHAN 10: Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â safleoedd, cyfleusterau ac offer

Cwestiwn 9: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
12	8	1	0	3
50%	33%	4%	0%	13%

Crynodeb o'r ymatebion

Cafwyd ambell sylw fod angen i'r canllawiau statudol nodi'n glir mai dim ond pan fo gan yr unigolyn sy'n cael ei leoli yr angen penodol hwnnw y dylai mynediad i gadair olwyn fod yn ofynnol. Mae'r canllawiau statudol wedi'u diwygio'n unol â hynny.

Roedd ambell un o'r farn y dylid cael gwared ar y gofyniad o ran glendid gan fod hynny'n oddrychol iawn. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fyddai hyn yn briodol. Er y cytunir bod diffinio glendid yn beth goddrychol i raddau helaeth, gallai cael gwared ar y gofyniad yn llwyr beri risg o ganiatáu amgylcheddau sy'n peri risg wirioneddol i iechyd corfforol ac iechyd meddwl unigolion.

Awgrymodd ambell un y dylid cael gwared ar y canllawiau statudol ynghylch peidio â threfnu lleoliadau byrdymor gydag oedolion a chanddynt drefniadau mwy hirdymor. Mae'r canllawiau statudol wedi'u diwygio'n unol â hynny.

Cwestiwn 10: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
13	6	2	0	3
54%	25%	8%	0%	13%

Crynodeb o'r ymatebion a'r camau gweithredu

Roedd un ymatebydd o'r farn y dylai'r weithdrefn gwyno fod ar gael mewn fformat hawdd ei ddarllen '*pan fo angen hynny*' yn unig am y byddai hynny'n lleihau'r pwysau. Mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth am y gwasanaeth fod yn briodol o ran iaith, arddull, cyflwyniad a fformat i'r unigolion y darperir y gwasanaeth iddynt. Rhoi rhagor o eglurder yn unig y mae'r canllawiau statudol ac nid ydynt yn gosod gofyniad ychwanegol o ran fformat. Nid oes angen gwneud newidiadau

Mae'r canllawiau statudol ar gyfer rheoliad drafft 44 (Chwythu'r chwiban) wedi'u newid i ychwanegu amddiffyniad i deulu'r gofalwr, yn sgil cynigion i wneud hynny.

Holwyd a oedd cadw cofnodion am 3 blynedd yn gyfnod digon hir. Mae hyn yn cyd-fynd â'r gofynion presennol a hefyd yn gyson â Rheoliadau 2017.

Cynigiodd un ymatebydd y dylai'r polisi cwyno mwyaf diweddar fod ar gael i gynrychiolwyr hefyd. Mae'r canllawiau statudol wedi'u diwygio'n unol â hynny.

Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid newid rheoliad drafft 40 (Cofnodion) i roi mwy o eglurder ynghylch pa wybodaeth y dylai gofalwyr ei chadw a sut y gall darparwyr gwasanaethau eu helpu i gadw'r wybodaeth hon yn berthnasol ac yn ddiogel. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn angenrheidiol oherwydd byddai'r cytundeb gofalwr yn ymdrin â hyn.

Cafwyd cynigion y dylai gofalwyr a chynrychiolwyr gael gweld cofnodion ac y dylai fod trefniadau iddynt allu codi pryderon. Mae'r canllawiau statudol wedi'u diwygio'n unol â hynny.

Cwestiwn 11: A yw'r gofynion yn y rhan hon o'r Rheoliadau drafft yn briodol ar gyfer darparwyr gwasanaethau lleoli oedolion?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
12	6	2	0	4
50%	25%	8%	0%	17%

Crynodeb o'r ymatebion a'r camau gweithredu

Pwysleisiodd Gofal Cymdeithasol Cymru fod y rheoliadau drafft (46 – Dyletswydd i benodi rheolwr; 47 – Gofynion o ran addasrwydd ar gyfer penodi rheolwr a 50 – Dyletswydd i adrodd am benodi rheolwr i reoleiddiwr y gweithlu a'r rheoleiddiwr gwasanaethau) yn cynnwys gofyniad i reolwyr fod wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, ac na chytunwyd ar hynny eto. Gan fod hynny bellach wedi'i gytuno, gyda chyfnod pontio hyd at fis Ebrill 2022, mae'r geiriad yn briodol.

Roedd ambell un o'r ymatebwyr o'r farn bod y gofyniad yn rheoliad drafft 47(2) (yn gysylltiedig â rheoliad drafft 28(2)) i reolwyr – gan gynnwys rheolwyr dros dro – fod â phrofiad o ddarparu cynlluniau lleoli oedolion yn rhy llym ac y byddai'n lleihau'n sylweddol y gronfa o bobl sydd ar gael. Yn sgil hynny, mae'r canllawiau statudol yn hyn o beth wedi'u hestyn er mwyn i reolwyr hefyd allu bod wedi cael profiad o reoli 'gwasanaeth gofal cymdeithasol perthnasol'.

Roedd sawl un o'r ymatebwyr wedi camddehongli'r gofyniad i unigolion cyfrifol ymweld â darparwyr gwasanaethau bob 3 mis fel gofyniad i ofalwyr lleoli oedolion ymweld â swyddfeydd darparwyr gwasanaethau. Nid dyna yw'r sefyllfa. Mae'r canllawiau statudol yn hyn o beth wedi'u diwygio i egluro'r gofyniad.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn ei bod yn rhy feichus gofyn i ddarparwyr gwasanaethau gynnal adolygiad o ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y gofyniad hwn, sydd hefyd yn berthnasol i wasanaethau eraill a reoleiddir, yn cyfrannu at gynnal a gwella gwasanaethau lleoli oedolion ac felly y dylid ei gadw.

RHAN 17: Troseddau

Cwestiwn 12: A yw'r ymagwedd a gymerir mewn perthynas â throseddau yn y Rheoliadau drafft yn ddigonol a chymesur?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
11	6	2	0	5
46%	25%	8%	0%	21%

Hysbysiadau Cosb (Ni ddarperir ar gyfer y rhain yn y Rheoliadau drafft)

Cwestiwn 13: A yw'r ymagwedd mewn perthynas â hysbysiadau cosb, fel y dangosir hynny yn Atodiad A, yn ddigonol a chymesur? A yw'r lefelau cosb yn briodol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
5	7	0	0	12
21%	29%	0%	0%	50%

Crynodeb o'r ymatebion a'r camau gweithredu

Ychydig o sylwadau a gafwyd ar y rhan hon. Gofynnodd y prif ymatebydd am eglurhad ynghylch a oedd trosedd ddim ond wedi'i chyflawni os oedd unigolyn wedi cael niwed, oherwydd roedd o'r farn mai dyna yr oedd geiriad y ddogfen ymgynghori'n ei awgrymu.

Gwneir y rheoliadau yn y Rhan hon o dan bwerau yn adran 45 a 46 o Ddeddf 2016. Mae rheoliad drafft 64(1) a rheoliad drafft 65(1) yn darparu bod methiant, ar ran darparwr y gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol yn y drefn honno, i gydymffurfio â gofynion penodedig (yn 64(2) a 65(2) yn y drefn honno) yn drosedd. Er hynny, mae rheoliad drafft 64(3) yn darparu na fydd troseddau penodol (a bennir yn 64(4)) ond wedi'u cyflawni gan ddarparwr gwasanaeth os yw'r methiant i gydymffurfio wedi peri bod yr unigolyn yn agored i niwed y gallid bod wedi'i osgoi neu risg sylweddol o niwed o'r fath neu'n colli arian neu eiddo o ganlyniad i ddwyn, camddefnyddio neu gamberchnogi.

Holodd yr un ymatebydd a ellid ystyried bod y cosbau'n llym a dywedodd y byddai'n bwysig cadw'r ddysgl yn wastad rhwng diogelu unigolion a'r angen i sicrhau nad oedd darparwyr gwasanaethau'n colli'r awydd i barhau neu i fentro i'r farchnad.

Diben yr hysbysiad cosb yw cynnig cyfle i'r derbynnnydd i ymryddhau rhag atebolrwydd i'w gael yn euog o drosedd drwy dalu tâl cosb. Mae hyn yn golygu y gellir ymdrin â mân droseddau o dan Ddeddf 2016 drwy ddulliau gweinyddol. Mae swm y gosb yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd a bwriedir i'r cosbau hyn atal pobl rhag torri'r rheoliadau. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhoi system hysbysiadau cosb ar waith sy'n gyson ac yn deg, a'r bwriad yw y caiff yr hysbysiadau cosb eu dyfarnu mewn modd cymesur. Bydd AGC yn llunio canllawiau statudol gweithredol cadarn i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae polisi Sicrhau Gwelliant a Gorfodi Arolygiaeth Gofal Cymru¹¹ yn nodi ei dull gweithredu pwylllog.

¹¹ <https://arolygiaethgofal.cymru/sites/default/files/2018-06/180601-polisi-ar-sicrhau-gwelliant-a-gorfodi-cy.pdf>

Cwestiwn 14: A yw'r gofynion a osodwyd ar unigolion a benodwyd a chynrychiolwyr personol yn rhesymol?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
10	5	1	0	8
42%	21%	4%	0%	33%

Crynodeb o'r ymatebion

Un ymatebydd yn unig a wnaeth sylwadau o sylwedd ar yr agwedd hon, gan awgrymu y gellid darparu rhagor o wybodaeth ar y math o bobl y gellid eu hystyried yn anaddas ar gyfer y rôl hon.

Mae Adran 30 o Ddeddf 2016 yn nodi pwy all fod yn 'unigolyn a benodwyd'. Mae'r pwerau i wneud rheoliadau yn adrannau 30 a 31 o Ddeddf 2016 yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod gofynion ar unigolyn a benodwyd neu gynrychiolydd personol.

RHAN 19: Dynodi unigolyn cyfrifol gan Weinidogion Cymru

Cwestiwn 15: A yw'r amgylchiadau pan allai unigolion cyfrifol gael eu dynodi gan Weinidogion Cymru, yn hytrach na'r darparwr gwasanaeth, yn ddigonol a chymesur?

Cytuno	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno	Heb ei nodi
5	4	1	3	11
21%	17%	4%	13%	46%

Crynodeb o'r ymatebion

Ychydig iawn o sylwadau a gafwyd ar hyn ac roedd y rhai a oedd yn anghytuno o'r farn y gellid rhoi mwy o eglurhad ynghylch pryd y gallai Gweinidogion Cymru ddynodi unigolyn cyfrifol.

Nid ydym yn bwriadu diwygio'r rheoliad hwn. Dim ond yn yr amgylchiadau eithriadol a nodir yn y rheoliad y byddai Gweinidogion Cymru'n arfer y pwerau hyn. Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr gwasanaeth ddynodi unigolyn cyfrifol ar gyfer y manau y mae'r gwasanaeth a reoleiddir i'w ddarparu ynddynt, ohonynt neu mewn perthynas â hwy. Gall gwasanaeth a reoleiddir gael ei ganslo pan nad oes unigolyn cyfrifol dynodedig. Mae Deddf 2016 hefyd yn nodi meini prawf cymhwysu ac addasrwydd ar gyfer unigolyn cyfrifol. Y bwriad yma yw galluogi rheoleiddiwr y gwasanaeth, ar gais darparwr y gwasanaeth neu unigolyn sy'n gweithredu fel darparwr y gwasanaeth, i ddynodi unigolyn cyfrifol nad yw'n bodloni'r meini prawf cymhwysu a nodir yn adran 21(2) o'r Ddeddf lle y ceir amgylchiadau eithriadol. Byddai angen i unrhyw un a ddynodid yn unigolyn cyfrifol gan reoleiddiwr y gwasanaeth fodloni'r gofynion addasrwydd a nodir yn adran 9 o Ddeddf 2016 o hyd. Byddai hyn yn sicrhau na fyddai cofrestriad gwasanaeth sy'n cael ei redeg yn dda fel arall yn cael ei ganslo ac y gallai felly barhau i weithredu tra bo'r sefyllfa'n cael ei hunioni neu hyd nes y dynodir unigolyn sydd yn bodloni'r gofynion cymhwysu ac addasrwydd yn unigolyn cyfrifol ar sail barhaol.

Cwestiwn 16: A ydych yn credu y byddai lleoliadau oedolion yn fuddiol i rai 16 ac 17 oed? Os ydych, a oes yna unrhyw faterion penodol fyddai angen eu hystyried wrth ddatblygu set o Reoliadau drafft?

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd 19 o'r 24 a ymatebodd o'r farn y dylid estyn rheoleiddio gwasanaethau lleoli oedolion i rai 16 i 17 oed ac ni fynegodd y pump arall farn y naill ffordd na'r llall. Y farn gyffredin oedd y byddai hyn yn helpu unigolion i bontio rhwng bod yn blentyn a bod yn oedolyn. Byddai'n osgoi'r sefyllfa sydd ohoni lle y mae unigolion yn profi newid sydyn wrth droi'n 18 ac mai dim ond bryd hynny y gellir chwilio am leoliad newydd, sy'n gallu peri oedi a phryder i unigolion.

Mae llawer wedi'i gofnodi am yr anawsterau sy'n wynebu pobl ifanc ag anabledd dysgu (gan gynnwys adroddiad Comisiynydd Plant Cymru, '*Peidiwch â Dal yn Ôl*¹²) ac roedd unrhyw gamau i wella'r cyfnod pontio yn cael eu hystyried yn dda o beth. Byddai gostwng yr oedran yn galluogi gwasanaethau lleoli oedolion i weithio gydag unigolion i ddod o hyd i leoliad addas a'u paratoi at y newid dros gyfnod hwy. Byddai hefyd yn galluogi unigolion i aros am gyfnodau byr gyda theulu newydd er mwyn iddynt gael cyfle i ddod i arfer fesul dipyn â'u cartref newydd. Dywedodd sawl un eu bod o'r farn y byddai'r trefniadau newydd yn arbennig o ddefnyddiol i'r unigolion hynny a oedd am fod yn annibynnol yn gynt, ac a oedd yn gallu gwneud hynny.

O ran ystyriaethau ymarferol, tynnodd sawl un sylw at yr angen i sicrhau y dylai lleoliad oedolyn i rai 16-17 oed estyn y tu hwnt i 18 oed ac na ddylai fod yn ddim ond symudiad arall i'r unigolyn. Roedd angen ystyried hefyd y berthynas rhwng taliadau i ofalwyr pobl ifanc 16-17 oed a thaliadau gofalwyr maeth er mwyn osgoi nad oes dyblygu. Pwysleisiwyd y byddai'n bwysig sicrhau bod mecanweithiau ar waith i sicrhau bod unrhyw ymrwymadau ariannol parhaus i unigolion ar ôl iddynt droi'n 18 yn cael eu hystyried wrth drefnu lleoliad pan fyddant yn iau na hynny. Roedd galwadau hefyd i sicrhau bod mesurau diogelu ychwanegol ar waith, i roi mwy o ran i gynrychiolwyr, ac i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth newydd a hyfforddiant i unigolion yn ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011¹³.

Pwysleisiwyd y byddai angen i unrhyw grŵp sy'n cael ei gynnull i ystyried deddfwriaeth newydd gynnwys cynrychiolaeth benodol o'r sefydliadau hynny sy'n gweithio ar hyn o bryd gyda phobl ifanc 16 i 17 oed sy'n agored i niwed.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ac ystyried lefel yr ymateb cadarnhaol, bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried yn fwy manwl yr ystyriaethau ymarferol wrth gyflwyno rhagor o ddeddfwriaeth i gynnwys gwasanaethau i'r rhai 16 i 17 oed, gan gynnwys costau, amseru a'r prif ystyriaethau.

¹² <https://www.complantcymru.org.uk/wp-content/uploads/2018/07/Peidiwch-a%CC%82-dal-yn-o%CC%82l.pdf>

¹³ Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/pdfs/mwa_20110002_we.pdf

2.2 Cwestiynau ychwanegol

Cwestiwn 17: A yw'r costau/buddion/risgiau y cyfeirir atynt yn y ddogfen ymgynghori hon yn adlewyrchiad rhesymol o lefel effaith y Rheoliadau drafft? A oes yna unrhyw gostau/buddion/ risgiau ychwanegol yr ydych yn teimlo na ystyriwyd neu na nodwyd?

Crynodeb o'r ymatebion

Wyth ymatebydd yn unig a fynegodd farn am yr agweddau hyn. Roedd tri o'r farn, er y byddai rhywfaint o faich ychwanegol ynghlwm wrth baratoi dogfennau angenrheidiol newydd neu ddiwygiedig, y byddai hynny'n gwella cyfathrebu ac ymarfer. Dywedodd dau arall fod disgrifiad rhesymol o'r effaith wedi'i roi. Dim ond un ymatebydd oedd o'r farn nad oedd digon o fanylion wedi'u rhoi yn y ddogfen ymgynghori.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ac ystyried ymateb cadarnhaol at ei gilydd y rhai a wnaeth sylwadau, a'r diffyg pryderon sylweddol, mae Llywodraeth Cymru'n fodlon ei bod wedi crynhoi'n ddigonol effaith ddisgwyliedig y Rheoliadau.

Cwestiwn 18: A ydych yn credu bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig? Os ydych, pa rai a pham/pam ddim?
A ydych yn credu bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn effeithio'n negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig?

Crynodeb o'r ymatebion

O'r 10 ymatebydd a fynegodd farn ar yr agwedd hon, roedd 6 o'r farn y gallai'r Rheoliadau drafft effeithio'n gadarnhaol ar bobl ag anableddau dysgu, drwy agweddau megis mwy o bwyslais ar ganlyniadau llesiant a lleihau baich biwrocratiaeth. Roedd 3 ymatebydd arall yn niwtral neu'n cyfeirio at effeithiau cadarnhaol a negyddol posib. Mynegodd yr unig ymateb cwbl negyddol bryderon y gallai beichiau newydd neu ganfyddiad o hynny olygu bod llai o bobl yn barod i rannu eu cartrefi gydag eraill.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Ac ystyried yr ymateb cadarnhaol i raddau helaeth, mae Llywodraeth Cymru'n fodlon y bydd y Rheoliadau, at ei gilydd, yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl ag anabledd dysgu.

Cwestiwn 19: Hoffwn wybod beth yw eich safbwyntiau ar effeithiau'r cynigion hyn ar yr iaith

Gymraeg, yn benodol mewn perthynas â

i) chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a

ii) pheidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau ydych chi'n meddwl allai fodoli? Sut ellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

Hefyd eglurwch sut ydych yn credu y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:

i) creu effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a

ii) sicrhau na effeithir yn niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Crynodeb o'r ymatebion

Dim ond naw ymatebydd atebodd y cwestiwn hwn. Roedd dau o'r farn y gallai'r Rheoliadau drafft gael effaith gadarnhaol, naill ai ar bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu oherwydd y gallent gynyddu darpariaeth gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd pedwar ymatebydd o'r farn y byddai'r effaith yn niwtral. Cynigiodd y tri arall safbwyntiau cyffredinol. Roedd y rhain yn cynnwys bod y mater hwn yn cael sylw mewn asesiadau poblogaeth¹⁴ a chynlluniau rhanbarthol datblygu'r gweithlu a'r heriau a fyddai'n codi o ran recriwtio pe byddai'n rhaid darparu gwasanaeth yn Gymraeg ym mhob ardal.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n fodlon na fydd y Rheoliadau'n cael effaith negyddol ar y Gymraeg ac y gallent fod yn fuddiol, yn enwedig i unigolion y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt.

¹⁴ Mae'n rhaid i awdurdodau lleol a'u partneriaid perthnasol ddarparu'r rhain o dan Adran 14 o Ddeddf 2014

Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

Rhif	Cyfrinachol le / Na	Sefydliad/Ar ran
1.	✓	Gofalwyr Cymru
2.	✓	Unigolyn
3.	✓	Unigolyn
4.	✓	Ategi
5.	✓	
6.	✓	
7.	✓	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
8.	✓	Comisiynydd Plant Cymru
9.	✓	Gofal Cymdeithasol Cymru
10.	✓	Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Fflint
11.	✓	Cysylltu Bywydau a Mwy
12.	✓	Plant yng Nghymru
13.	✓	Cyngor Sir Ddinbych
14.	✓	Cyngor Sir Powys
15.	✓	Cyngor Abertawe
16.	✓	BASW Cymru
17.	✓	Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
18.	✓	Marie Curie
19.	✓	Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
20.	✓	Cysylltu Bywydau Gorllewin Cymru
21.	✓	Cyngor Sir Caerfyrddin
22.	✓	Awdurdodau Lleol Caerdydd a'r Fro
23.	✓	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
24.	✓	Cyngor Sir Ceredigion